# Mae Anabledd Dysgu Cymru yn edrych am Ymddiriedolwyr Newydd

## Beth yw Ymddiriedolwr?

Rhywun sy'n helpu i reoli Elusen yw Ymddiriedolwr.

Fel Ymddiriedolwr Anabledd Dysgu Cymru, byddwch yn:

- Sicrhau ein bod yn gwneud yr hyn rydym yn dweud ein bod yn mynd i wneud

- Sicrhau ein bod yn gweithio yn unol â'r gyfraith

- Sicrhau ein bod yn dilyn ein rheolau (Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu)

- Dewis Cadeirydd, Is-Gadeiryddion a Thrysorydd

- Sicrhau ein bod yn gwario ein harian yn gywir

- Ein helpu ni i benderfynu pa waith byddwn yn ei wneud yn y dyfodol

- Ein helpu ni i ofalu am ein staff

- Cymryd rhan yng nghyfarfodydd ein Pwyllgor Rheoli

## Rhaid eich bod:

☑ Dros 18 mlwydd oed

☑ Yn cytuno â hawliau allweddol a gwerthoedd siartr Anabledd Dysgu Cymru

☑ Yn onest a dibynadwy

☑ Yn derbyn pleidlais gan ein Haelodau Llawn yn ein Cy farfod Cyffredinol Blynyddol

## Os dymunwch fod yn ymddiriedolwr, byddwch yn:

- Ymddiriedolwr am 2 flynedd

- Meddu ar amrywiaeth o sgiliau a phrofiadau

- Mynychu 6 chyfarfod ymddiriedolwyr y flwyddyn

Mae bod yn Ymddiriedolwr yn golygu y byddwch yn cynorth-wyo Anabledd Dysgu Cymru i gyflawni ei chenhadaeth.

**Ein cenhadaeth yw:**

Creu Cymru sy'n gwerthfawrogi ac sy'n cynnwys pob plentyn ac oedolyn ag anabledd dysgu.

Rydym yn edrych am bobl ag anableddau dysgu a phobl o bob rhan o'r gymuned.

Gobeithiwn eich bod:

- Eisiau gwella bywydau pobl eraill ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a'u gofalwyr

- Yn gwybod beth rydym yn disgwyl i chi ei wneud fel ymddiriedolwr

- Yn gwybod am y materion sy'n cael effaith ar bobl ag anableddau dysgu

- Yn deall arian

- Yn deall sut caiff sefydliadau eu rheoli

- Yn wybodus o ran cyflogi staff a gofalu amdanynt

- Yn gyfeillgar ac yn fodlon cymryd rhan mewn cyfarfodydd

Cynhelir cyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli 6 gwaith y flwyddyn yn ystod yr wythnos.

Byddwn yn talu eich costau teithio i gyfarfodydd.

## Swyddi Gwag

Os ydych yn perthyn i un o'r sefydliadau sy'n aelodau llawn, gallwch ofyn i fod yn ymddiriedolwr i'r canlynol:

**Darparwyr Oedolion**

**Hunan Eiriolaeth**

**Cyflogaeth gyda Chefnogaeth**

**Dolenni'r DU (sefydliadau tu allan i Gymru)**

Yn ogystal, mae gennym Sedd Agored i unigolion sydd â did-dordeb yn ein gwaith.

## Gwneud Cais

Llenwch ffurflen gais ymddiriedolwr a'i hanfon atom erbyn **6 Hydref 2011.**

Wedyn, byddwn yn gofyn i rywun sydd yn eich adnabod chi i ysgrifennu geirda ar eich rhan. Llythyr yw hwn lle maen nhw'n dweud wrthym am yr hyn rydych yn gallu ei wneud.

Yn olaf, byddwn yn gofyn i'r Aelodau Llawn yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol os dymunant bleidleisio drosoch.

## Ynghylch Anabledd Dysgu Cymru

Rydym ni yn:

- Elusen Cymru Gyfan

- Aelod sefydliadol sy'n gweithio gyda'n haelodau a'n partneriaid

- Cael ein hariannu gan Lywodraeth Cymru

## Staff

Mae 20 o bobl yn gweithio i Anabledd Dysgu Cymru. Maen nhw'n gweithio yn ein swyddfeydd yng Nghaerdydd a Chastell-nedd.

**Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â:**


**Joanne Moore, Anabledd Dysgu Cymru**

**029 2068 1160**

**Joanne.Moore@learningdisabilitywales.org.uk**